



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Hybu Cig Cymru (HCC)

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau: 21 Hydref 2020 am 16:00



Rheoleiddiwyd gan y
Comisiynydd Penodiadau
Cyhoeddus

Cadeirydd – Hybu Cig Cymru (HCC)

Cynnwys

Gwneud Cais

Atodiad A: Rôl y Cadeirydd / Aelod

Atodiad B: Disgrifiad o'r rôl a manylebau'r person

Atodiad C: Y broses ddethol

Cadeirydd – Hybu Cig Cymru (HCC)

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Gadeirydd Bwrdd Hybu Cig Cymru (HCC). Mae'r Atodiadau amgaaedig yn rhoi manylion ynghylch rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau HCC a'r broses ddethol.

I wneud cais ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-643606d0a1d8/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar y swydd Cadeirydd ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud Cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith.

Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. **Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.**

Ni ddylai'r datganiad personol a'r CV fod yn hwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen Fras

Dyddiad cau:	21 Hydref 2020
Llunio rhestr fer:	w/c 2 Tachwedd 2020
Cyfweliadau:	w/c 7 Rhagfyr 2020
Penodi:	1 Ebrill 2021

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael Cadeirydd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru - pobl o bob cefndir - i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth

Cadeirydd – Hybu Cig Cymru (HCC)

ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael gwarant o gyfweliad, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru nawr.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Uned Cyrff Cyhoeddus
Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl HCC a swydd Cadeirydd HCC, cysylltwch â:

Mark Alexander – Pennaeth Amaethyddiaeth, yr Is-adran Datblygu Cynaliadwy,
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru
E-bost: mark.alexander2@llyw.cymru.

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Rôl a Chyfrifoldebau Hybu Cig Cymru

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff sy'n cael ei arwain gan y diwydiant sy'n gyfrifol am ddatblygu, marchnata a hyrwyddo diwydiant cig coch Cymru.

Daw prif ffynhonnell incwm HCC o'r Ardreth ar Gig Coch, tâl statudol a delir gan ffermwyr a phroseswyr/allforwyr gwartheg, defaid a moch a leddir yng Nghymru. Caiff ei defnyddio i helpu i farchnata brandiau cig coch Cymru a datblygu'r gadwyn gyflenwi ar y cyd.

Cafodd HCC ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2003. Ar 1 Ebrill 2007, cafodd HCC ei sefydlu fel corff sy'n eiddo llwyr i Weinidogion Cymru.

Mae dwy adran weithredol (Datblygu'r Farchnad a Datblygu'r Diwydiant) yn brif ffocws ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau ac fe'u cefnogir gan yr adran Gyfathrebu, yr adran Strategaeth a Pholisi Corfforaethol a'r adran Gwasanaethau Corfforaethol.

Datblygu'r Farchnad – y nod yw cynyddu elw'r diwydiant cig coch yng Nghymru trwy gynyddu gwerth y cig coch a werthir.

Datblygu'r Diwydiant – gweithio gyda'r diwydiant cig coch yng Nghymru i wella ansawdd a chynyddu ei gost-effeithlonrwydd mewn ffordd gynaliadwy.

Cyfathrebu – sicrhau bod rhanddeiliaid a chwsmeriaid yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau sy'n ymwneud â chig coch Cymru a holl weithgareddau HCC.

Strategaeth a Pholisi Corfforaethol – gweithio i ddatblygu strategaethau a'u rhoi ar waith, a dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch diwydiant cig coch Cymru.

Gwasanaethau Corfforaethol – cefnogi darparu'r busnes gweithredol a rheoli'r adnoddau sydd eu hangen.

Mae holl waith HCC yn cael ei wneud mewn un swyddfa gofrestredig: Hybu Cig Cymru, Tŷ Rheidol, Parc Melin, Aberystwyth SY23 3FF.

Mae HCC wrthi'n datblygu marchnadoedd pwysig yma yng Nghymru a thu hwnt. Mae gwaith yn cael ei wneud yn rheolaidd â manwerthwyr a busnesau gwasanaethau bwyd, i gomisiynu rhaglenni hyrwyddo rheolaidd ar gyfer Cig Oen â Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (PGI) a Chig Eidion PGI. Mae HCC yn arloeswr o ran datblygiadau o fewn y diwydiant; gan gynnal ymchwil a datblygu, rhannu gwybodaeth a chefnogi hyfforddiant sy'n berthnasol i bob rhan o'r gadwyn gyflenwi. Mae hynny'n sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru'n gallu gwella ansawdd, gwella cost-effeithiolrwydd ac ychwanegu at werth cynnyrch cig coch Cymru ar draws y diwydiant cyfan.

Cadeirydd – Hybu Cig Cymru (HCC)

Mae blaenoriaethau gweithredol a thargedau perfformiad HCC yn seiliedig ar ac yn ymateb i lythyr cylch gwaith blynyddol Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig sy'n gosod blaenoriaethau strategol; unrhyw bolisiau penodol a chynlluniau gweithredu; a hollisiau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae HCC yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chynnal diwydiant amaethyddol llewyrchus a chynaliadwy, fel a ddisgrifir yn 'Ffermio Cynaliadwy a'n Tir' <https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-07/dogfen-ymgynggori-brexit.pdf>

Mae polisiau a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru i'w gweld yn Ffyniant i Bawb <https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol> a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents>

Gyda'i gilydd, dyma'r fframwaith y cafodd nodau penodol HCC eu creu ar eu cyfer.

Yn ogystal, mae gofyn i'r corff integreiddio'i holl waith i gefnogi'r saith nod llesiant ynghyd â'r pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Cafodd *Gweledigaeth hyd 2025* HCC ei lansio ym mis Mai 2018. Ceir ynddi'r weledigaeth ar gyfer cefnogi diwydiant cig coch Cymreig sy'n broffidiol, effeithiol, cynaliadwy ac arloesol, sy'n dod â budd i bobl Cymru, sy'n gallu wynebu newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol ac sy'n gallu ymateb yn gystadleuol i dueddiadau yn y farchnad sy'n newid beunydd. Dyma'r naw maes blaenoriaeth sy'n sail i'r weledigaeth honno:

1. Sicrhau lle yn y farchnad i gig coch o Gymru fel cynnyrch premiwm
2. Datblygu cyfleoedd i fasnachu cig coch o Gymru yn yr UE
3. Cynyddu'r defnydd o gig coch o Gymru ym Mhrydain Fawr
4. Chwilio am ddefnyddwyr newydd o gig och o Gymru mewn marchnadoedd sefydledig
5. Cynyddu canran y cig coch o Gymru sy'n cael ei allforio y tu allan i'r UE
6. Datblygu diwydiant cig coch o Gymru sy'n gystadleuol
7. Lleihau effaith cynhyrchu a phrosesu cig coch o Gymru ar yr hinsawdd, yr amgylchedd a gwastraff
8. Cynllunio wrth gefn o safbwynt masnachu, cynhyrchu a phrosesu yn y dyfodol ar ôl Brexit
9. Cyfathrebu'n effeithiol â phob rhan o'r diwydiant i sicrhau undod pwrpas.

Am ragor o wybodaeth, ewch i <https://meatpromotion.wales/cy>.

Disgrifiad o'r Rôl a Manyleb y Person

Rôl a chyfrifoldebau

Mae'r Cadeirydd yn cael ei recriwtio ar adeg o newid sylweddol yn y diwydiant ffermio. Prif gyfrifoldeb Cadeirydd HCC yw arwain y Bwrdd o Gyfarwyddwyr anweithredol a sicrhau bod HCC yn effeithlon. Cadeirydd HCC sy'n gyfrifol am lywodraethiant HCC ac am roi arweiniad i HCC gan ysgwyddo'r rôl bwysig o graffu ar holl fuddsoddiadau a gweithgareddau HCC.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrif am weithrediad HCC. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae gofyn i HCC gydymffurfio â darpariaethau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Dyma brif gyfrifoldebau Cadeirydd HCC:

- Arwain y Bwrdd i wireddu "Gweledigaeth 2025 – Gweledigaeth a Chyfeiriad Strategol ar gyfer Sector Cig Coch Cymru hyd 2025".
- Arwain y gwaith o ddatblygu Cynllun Corfforaethol HCC a Chynllun Gweithredol HCC trwy'r Bwrdd.
- Rhoi arweiniad ar gyfer uchelgais y diwydiant cyfan i gynyddu cynhyrchiant yn gynaliadwy, yng nghyd-destun cyfnod o ddiwygio sylweddol ym maes polisi ffermio, agenda uchelgeisiol ar gyfer masnachu â'r byd a heriau cyfrannu at fod yn sero net o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
- Chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo barn HCC i'r cyhoedd, cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd ac arwain is-bwyllgorau'r Bwrdd i sicrhau eu bod yn effeithlon.
- Sicrhau bod systemau i fonitro effeithiolrwydd y Bwrdd a bod gan holl Aelodau'r Bwrdd wybodaeth gywir, amserol a chlir ar berfformiad y cwmni.
- Cynnal systemau llywodraethu corfforaethol cadarn a sicrhau y cynhelir yr holl weithgareddau ag uniondeb ac yn briodol fel ag sy'n ofynnol gan gorff sy'n gwario arian cyhoeddus.
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli, llywodraethu a rheolaeth fewnol rhag risg. Mae disgwyl i'r Bwrdd sicrhau bod y systemau rheoli a rheoli risg mewnol yn effeithiol.

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, **rhaid** ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad:

Cadeirydd – Hybu Cig Cymru (HCC)

Meini Prawf Hanfodol

1. Sgiliau arwain, gweithio mewn tîm a chyfathrebu

- Dealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn y mae arweinyddiaeth gynhwysol yn ei olygu;
- Sgiliau cyfathrebu a dylanwadu rhagorol, gyda'r gallu i ysbrydoli a chymell;
- Y gallu i reoli grŵp amrywiol ei farn ai arwain i wneud penderfyniadau effeithiol a datblygu polisiau ystyrlon; a
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda chymunedau a rhanddeiliaid priodol;
- Y sgiliau a'r gallu i gyfathrebu'n glir a chydag argyhoeddiad o fewn y corff a chyda rhanddeiliaid, y cyfryngau ac amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus a phreifat.

2. Gwerthfawrogi amaethyddiaeth ac anghenion ehangach y diwydiant

- Yn gallu dangos gwerthfawrogiad o'r pynciau llosg sy'n wynebu'r diwydiant a thalwyr ardoll cig coch Cymru; a
- Meddu ar wybodaeth am y pynciau sy'n berthnasol i gadwyn gyflenwi cig coch Cymru neu'r gallu i'w deall; a
- Sgiliau rhyngpersonol da, y gallu i feithrin perthynas dda â thalwyr yr ardoll cig coch, rhanddeiliaid ehangach ac eraill.

3. Datblygu Strategol

Y gallu i feddwl yn strategol a datblygu gweledigaeth tymor hir ar gyfer y sefydliad. Dealltwriaeth o lywodraethu corfforaethol a rôl a chylch gwaith Bwrdd HCC, gan sicrhau eu bod yn cyflawni eu rolau gydag uniondeb ac yn briodol;

- Deall y cyd-destun strategol ehangach a'i ystyried wrth wneud penderfyniadau; a
- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth iawn.

Y Gymraeg

Byddai'n ddymunol iawn i rôl Cadeirydd HCC pe bai'n meddu ar sgiliau Cymraeg.

Hefyd, dylai'r holl ymgeiswyr ddangos eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog a gwerthfawrogi polisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith.

Cadeirydd – Hybu Cig Cymru (HCC)

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd fel arfer yn Aberystwyth gyda chyfarfodydd â'r diwydiant, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau'n cael eu cynnal ledled Cymru, y DU a'r byd. Yn ystod pandemig Covid-19, rhith-gyfarfodydd a gynhelir. Caiff cyfarfodydd yn y dyfodol eu cynnal yn unol â chynghor Llywodraeth Cymru.

Tâl Cydnabyddiaeth

Mae Uned Tâl a Chydnabyddiaeth y Sector Cyhoeddus wedi cytuno ar dâl cydnabyddiaeth o £350 y dydd (hyd at ymrwymiad blynyddol o 72 diwrnod) ar gyfer swydd y Cadeirydd.

Gellir hawlio costau teithio a chostau rhesymol eraill a ysgwyddir wrth wneud gwaith HCC oddi wrth HCC hyd at y terfynau cydnabyddedig. Efallai y byddwch yn gymwys hefyd i hawlio ad-daliad o gostau gofal plant/gofal am henoed/gofalwr cynorthwyol, tra'ch bod yn gwneud gwaith ar ran HCC.

Ymrwymiad amser

Rhagwelir y bydd gofyn neilltuo hyd at **72 diwrnod y flwyddyn** i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd (yn Aberystwyth fel arfer) a chyfarfodydd â'r diwydiant, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau (ledled Cymru, y DU a'r byd).

Hyd y swydd

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig sy'n penderfynu ar hyd y penodiad, a fydd yn para hyd at dair blynedd.

Atebolrwydd

Penodir Cadeirydd HCC gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a bydd yn atebol i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig trwy Lywodraeth Cymru am gyflawni ei ddyletswyddau ac am ansawdd ei berfformiad.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sydd wastad yn ymddwyn mewn ffordd fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Ni dderbynnir ceisiadau gan gyfarwyddwr sydd wedi'u hanghymhwyso fel y'u diffinnir gan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn Gadeirydd HCC yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.]

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd HCC gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn HCC.

Cadeirydd – Hybu Cig Cymru (HCC)

Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru'n cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar yr holl ymgeiswyr fydd wedi cael eu dewis i gael cyfweiliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, chwiliadau o'r cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl y gofynnir cwestiynau ichi yn y cyfweiliad am ganfyddiadau'r archwiliadau hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen [yma](#).

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiadau personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol dan gadeiryddiaeth Mark Alexander, Pennaeth Amaethyddiaeth, yr Is-adran Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru ac fe'i cefnogir gan Kevin Roberts (Cadeirydd HCC) a Nerys Llewelyn (Aelod Annibynnol o'r Panel).

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Fe gewch e-bost gan eich canolfan ymgeisio i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal rhith-gyfweiliadau ar gyfer rôl y Cadeirydd. Os cewch eich dewis i gyfweiliad, cewch gyngor a threfniadau ar gyfer cynnal y cyfweiliad ar-lein.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i Weinidogion yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwllch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd HCC, a fydd yn cadarnhau telerau'r penodiad.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, byddwch yn cael gwybod gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech

Cadeirydd – Hybu Cig Cymru (HCC)

er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, rydym yn fwy na pharod i roi adborth ichi os mai dyna'ch dymuniad.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os byddwch yn dal i fod yn anhapus, hyd yn oed ar ôl derbyn ymateb cynhwysfawr gan Lywodraeth Cymru, gallwch ysgrifennu at y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Cysylltwch â:

The Commissioner for Public Appointments
1 Horse Guards Road
Llundain
SW1A 2HQ
Ffôn: 0207 271 0849
E-bost: publicappointments@csc.gsi.gov.uk